CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19eg MEDI 2023.
NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng D T Roberts (Cadeirydd) Cyng W R Parry (Is-Gadeirydd) Cyng J Evans, G Jones, J E Lewis, Miss B Owen, R G Parry, Mrs L Roberts, R R Roberts.

YMDDIHEURIADAU: Cyng Ms N Dafydd.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 18ed GORFFENNAF 2023 YN RHAI CYWIR: Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng Miss B Owen.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Parcio Bodffordd.
Cafwyd Cyfarfod ar y safle gyda Swyddog o`r Cyngor Sir (Collette Williams Swyddog Gorfodaeth Priffyrdd) yn ymwneud a parcio ym Modffordd 30ain Awst 2023.
Siomedig oedd presenoldeb gan y Cynghorwyr, cafwyd rhai ymddiheuriadau. Yn bresennol oedd Y Cadeirydd Cyng D T Roberts, Cyng Ms N Dafydd a`r Clerc.
Eglurwyd na dim ond gorfodaeth yr oedd hi yn gallu helpu, ac am drefnu i`r Swyddogion Gorfodaeth Sifil fynd i`r lleoliad gyda`r nosau a beth cyntaf yn y bore.
Cerddwyd i fynnu o`r Sgwar tuag at Ty Twyrch, cael gair hefo ambell breswylydd ar y ffordd yn cwyno o`r parcio sydd mewn amser yn mynd i achosi damweiniau. Hefyd parcio o flaen tai pobl eraill oherwydd fod mwy nag un car mewn rhai tai. Rhai yn parcio ar y lon yn rheolaidd.
Y Cyngor Sir am edrych i fewn i weld a oes lle gan y Tai dros y ffordd i Ty Twyrch lle i fynd i`r cefn. (Rhoddwyd tir gan Mr Iolo Owen amser yn ol) Ond deallwyd fod cymhleth.
I rhai sydd yn defnyddio y lon yn rheolaidd fel man parcio (ar ceir yn ddisymyd) oherwydd fod ganddynt ddau a thri car wrth ei tai gall y Cyngor Sir ofyn yn foneddigaidd symud.
Soniwyd am gael llinellau melyn o`r rhai sydd yn bresennol i fynnu am Ty Twyrch. Hefyd bu crybwyll gwaelod Bodffordd am Groeslon Llangwyllog.
Bydd y negas yn cael ei anfon ymlaen i Mr Alun Roberts (Technegydd y Cyngor Sir).

Wedi edrych ar y Graffitti ar y Gysgodfan Bws ym Modffordd. Mae ychydig baent gwyn arno ond nid oes llawer o broblam i gael hwn i ffwrdd. Y crafu ar y gwydr (perspex) sydd yn broblemus. Efallai ei tynnu a rhoi sheet blaen.

ELUSEN WILLIAM BOLD.

Cafwyd ebost gan Mr Rees Roberts, Ysgrifennydd yr Elusen.
Diolchwyd am benodi Cyng J Evans yn aelod o`r Elusen, cynrychiolydd y Cyngor Cymdeithas.
Ynglyn derbyn Mantolen Flynyddol yr Elusen, credai yr aelodau fod y Cyngor wedi derbyn copi am 5 mlynedd diwethaf ac bod hyn yn mynd yn ol ddigon pell.
R`oedd cyn aelod o`r Cyngor ac o Bwyllogor yr Elusen yn arfer cael copi gyda bwriad o`i chyflwyno

gerbron y Cyngor. A byddai aelodau`r Elusen yn cymryd yn ganiataol y byddai hyn yn digwydd. Ymddiriedolwyr yn credu nad oedd mwy i`w drafod, parthed cwestiynau dechreuol y Cyngor Cymdeithas sydd yn mynd reit bell yn ol bellach, ac yn gobeithio y bydd hyn yn dod a materion i ben.
Wedi dweud hynny, os yw aelodau y Cyngor yn dal yn anfodlon ag unrhyw fater o`r Elusen mae croeso i`r Cyngor nodi hyn. Aelodau yn siomedig fod materion yn llusgo, heb reswm am hynny rhwng y Cyngor a`r Elusen ac yn dymuno gweld cau pen y mwdwl bellach.

Ar ol treulio cynwys yr ebost pasiwyd fel a ganlyn:- Pob Cynghorydd wedi cael copi o ebost yr Elusen 3ydd Awst 2023.
Nid ydyw`r Cynghorwyr yn gweld ein bod wedi cael gwybodaeth 5 mlynedd, dim ond dwy r`oedd Covid.
Nid ydyw hyn yn ddigon da fel a ddywedwyd, mae y Cyngor angen atebion llawn i`r cais gwreiddiol anfonwyd. Beth sydd i guddio? Edrych ymlaen am ateb llawn buan.
Mae Cyng J E Lewis a Cyng J Evans yn wybodol o hyn.
Cafwyd cynnig derbyn ebost yr Elusen a diweddu y mater. Cynnig Cyng G Jones, eilio Cyng Mrs L Roberts.
Cafwyd cynnig arall yn gwrthod diweddu y mater a mynnu cael ymateb llawn i`r cais gwreiddiol. Paham nad oeddynt eisiau rhoi atebion. Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng W R Parry. (Mwyafrif.)
Trwy bleidlais pasiwyd i dderbyn yr ail gynnig a Cyng G Jones a Mrs L Roberts yn tynnu ei cynnig yn ol (I rhoi diwedd ar y mater)
Cyng J Evans, J E Lewis a R G Parry ddim yn pleidleisio.
Dywedodd Y Cyng J E Lewis nad oedd ef yn ymwybodol o ddim sydd wedi ei awgrymu.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. HHP/2023/177. Cais llawn ar gyfer dymchwel yr adeilad allanol ynghlwm presennol yn ogystal a chodi estyniad un llawr a chreu anecs yn:-
   Rhyd Caradog, Llandrygarn.
   Dim yn gwrthwynebu ond yn gofyn a ydyw yn efeithio a cymeriad y lle?
   Cynnig Cyng R R Roberts, eilio Cyng J E Lewis.

2. FPL/2023/204. Cais llawn ar gyfer lleoli adeilad ystafell dosbarth dwbl modiwlaidd ar Faes Chwarae`r Ysgol yn :-
   Ysgol Bodffordd, Minffordd, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng J E Lewis, eilio Cyng Mrs B Owen.

3. FPL/2023/245. Cais llawn ar gyfercodi Sied Amaethyddol ar gyfer lleoli 6 glamping pod, adeiladu ardal parcio, creu llwybrau athraidd, tirlunio meddal a gwaith cysylltiedig ar dir yn:-
   Ger y Llan, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng Miss B Owen, eilio Cyng G Jones.

4. FPL/2023/185. Cais llawn ar gyfer codi Sied Amaethyddol i ddefnydd storio ynghyd a adeiladu trac mynediad ac llain caled yn:-
   Rhymer, Bodffordd.
   Dim gwrthwynebiad.
   Cynnig Cyng R G Parry,eilio Cyng J E Lewis.

PENDERFYNIADAU.

5. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

6. Ffreuer G Owen.
   Datganiad diweddariad ar Goncrid RAAC.
   Ysgol David Hughes Porthaethwy. Ysgol Uwchgradd Caergybi.
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth, gan obeithio datryso yn fuan.

7. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Arriva wedi cyhoeddi adolygiadau i`r rhwydwaith Bysiau ar draws Gogledd Cymru.
   Bydd yn effeithio ar rhai gwasanaethau Bws Masnachol ar draws Ynys Mon.
   Effeithio yn Pentrefi:-
   Caergeiliog, Bodedern, Trefor, Gwalchmai Uchaf, Llynfaes, Bodffordd, Llanddaniel ac yn dod i rym Ddydd Sul 24ain Medi 2023.
   https:/wwwarrivabus.co.uk/latest-news/changes-to-services-in-north-wales-sept-23
   Mae`n annhebygol bydd arriva yn gallu cynnig yr un lefel o amider Bysiau a ddarparwyd yn flaenorol.
   Y Cyngor i anfon llythyr yn erbyn ei penderfyniad.

8. Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd - Huw Percy.
   Gwaith Ciefyd Coed Ynn (Ash Dieback)
   Wedi bod ynn bresennol ar Ynys Mon ers 2016. Ac wedi bod yn tynnu sylw at ei effeithiau posibl ers 2021. Celfyd Coed Ynn (llyw.cymru)
   Mae perygl petai Coeden neu rhan o goeden sydd wedi ei heffeithio yn disgyn i`r Briffordd neu safle cyhoeddus arall.
   Derbyn y wybodaeth bod yn wyliadwrys.

9. Ffreuer G Owen.
   Datganiad: Arwyddion newydd modern yn tynnu sylw at Dreftadaeth Gyfoethog Amlwch.
   Derbyn y wybodaeth. Dim sylw.

10. Swyddog Polisi. Rhian W Jones.
    Camau cadarnhaol tuag at ddarparu Porthladd Rhydd Ynys Mon, (Ynys Cybi) dros y 12mis nesaf.
    Derbyn y wybodaeth newyddion da i Fon.

11. Priffyrdd. Alun Roberts.
    Ceir yn Parcio ar ffin glaswellt ger 9 Bronheulog, Bodffordd. Rhai yn cael ei gwerthu.
    Heb waharddiad Parcio llinell felen yna ni all y Cyngor Sir gymryd camau oi osod dirwy neu symud y ceir sydd yn Parcio ar y gwair. Mae rheolau yn ymwneud a gwerthiant cerbydau ar ymyl y lon. Os ond un cerbyd sydd yn cael ei werthu ac nid yw yn cael eiystyried yn Fenter Fasnachol yna byddai yn annhebygol y byddai`r Adain Safonau Masnach yn ymchwilio ac yn cymryd camau i atal y gweithgareddau.
    Tyfiant angen sylw ger :- Capel Sardis, Ty Hen Newydd am fynedfa Cae Bach Aur a Chae Ysgol Bodffordd. Sylwadau wedi ei hanfon i`r Swyddogion Perthnasol ar gyfer gweithredu.

GOHEBIAETH (ARALL)

12. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn. Cyng J E Lewis yn cael golwg arno.